AWDURDOD GWEITHREDOL IECHYD A DIOGELWCH
HEALTH AND SAFETY EXECUTIVE

HSE

Cynllun Iaith Gymraeg: Cynllun Gweithredu

Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

2024

Cynllun Iaith Gymraeg: Cynllun Gweithredu

Adran	Maes	Cam	Tîm Arweiniol	Dyddiad Targed
Cynllunio a Chyflenwi Gwasanaethau	Polisi	Cynnwys a chynnal gofyniad penodol, wedi'i ategu gan ganllawiau, i ystyried y Gymraeg yn weithredol yn ein proses datblygu polisi.	Tîm Datganoli/Arweinwyr Proffesiynau Polisi /Arweinwyr Polisi	Parhaus
	Gwasanaethau	Cyflwyno mecanweithiau cadarn i gefnogi'r gwaith o nodi gwasanaethau i'w darparu yn Gymraeg	Arweinwyr gwasanaeth (gyda chymorth y Tîm Datganoli)	2026
		Hyrwyddo argaeledd ein gwasanaethau Cymraeg trwy gyhoeddi'r Cynllun Iaith Gymraeg a'r Cynllun Gweithredu newydd ar ein gwefan allanol.	Tîm Datganoli	Haf 2024
		Sicrhau bod ein gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cyfeirio'n glir a'u hysbysebu'n allanol wrth i'r rhain ddod ar gael.	Perchnogion Gwasanaeth	Parhaus
Cytundebau Trydydd Parti	Caffael	Darparu gwybodaeth am ein Cynllun Iaith Gymraeg a gofynion sefydliadol i bob partner newydd perthnasol a thrydydd parti.	Tîm Caffael/Arweinwyr Caffael	2025

Adran	Maes	Cam	Tîm Arweiniol	Dyddiad Targed
Cytundebau Trydydd Parti	Caffael	Datblygu a chyflwyno mecanweithiau i fonitro gwasanaethau a ddarperir gan drydydd partïon perthnasol ar ran HSE mewn perthynas â'r Gymraeg.	Tîm Caffael	2026
Cyfathrebu ag HSE	Cyffredinol	Sicrhau bod systemau newydd a chyfredol yn gallu cofnodi dewisiadau iaith unigolion, grwpiau a sefydliadau lle bo'n bosibl ac yn briodol, gan alluogi gohebiaeth yn y dyfodol i gyd-fynd yn gyson â'u dewis.	Perchnogion System / Tîm Datganoli	2027
	Ysgrifenedig	Codi ymwybyddiaeth yn fewnol o ofynion a phrosesau i fodloni ymrwymiadau amser ac ansawdd mewn perthynas â gohebiaeth Gymraeg.	Tîm Datganoli	Parhaus
		Archwilio opsiynau posibl o ran gwasanaethau cyfieithu a fydd yn hwyluso'n gynaliadwy i gadw at ein hymrwymiadau gohebiaeth ysgrifenedig.	Tîm Datganoli/ Gwasanaethau Iaith	2026
	Teleffoni	Datblygu a rhoi cyhoeddusrwydd i adnoddau i gefnogi holl staff Cymru i ddechrau galwadau gyda chyfarchiad dwyieithog.	Tîm Datganoli	2024
		Mynd ati'n weithredol i godi ymwybyddiaeth o brosesau a gofynion yr iaith Gymraeg ymhlith staff perthnasol sy'n delio â chyswllt ffôn gan y cyhoedd yng Nghymru.	Tîm Datganoli / Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid	Parhaus

Adran	Maes	Cam	Tîm Arweiniol	Dyddiad Targed
Cyfathrebu ag HSE	Teleffoni	Cynyddu ein gallu mewnol i ddarparu gwasanaeth Cymraeg ar ein prif linell ffôn.	Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid / Recriwtio AD	Parhaus
	Cyfarfodydd Cyhoeddus	Archwilio mecanweithiau posibl ar gyfer darparu a hyrwyddo opsiynau iaith Gymraeg, mewn cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus a gynhelir gan HSE yng Nghymru.	Tîm Datganoli/Cyfathrebu	2027
		Codi ymwybyddiaeth o ofynion a phrosesau cyfarfodydd cyhoeddus i sicrhau ystyriaeth ddwyieithog.	Tîm Datganoli/ Cyfathrebu	Parhaus
	Wyneb yn Wyneb	Datblygu ein gallu i ddarparu gwasanaeth Cymraeg mewn rhyngweithiadau wyneb yn wyneb a drefnwyd.	Tîm Datganoli / Timau Gweithredol/ Cyfathrebu /AD	Parhaus
Cyhoeddiadau	Datblygu	Datblygu prosesau i sicrhau bod deunyddiau i'r cyhoedd yn cael eu cyfieithu yn unol â'r system sgorio a'r Cynllun.	Tîm Datganoli / Cyfathrebu	2026
	Hyrwyddo	Codi ymwybyddiaeth o ofynion a phrosesau cyfieithu cyhoeddiadau ymhlith cydweithwyr perthnasol.	Tîm Datganoli	Parhaus
		Archwilio dulliau posibl o gyfeirio a hyrwyddo deunydd dwyieithog yn allanol, lle bo’n briodol.	Tîm Datganoli/ Cyfathrebu	Parhaus

Adran	Maes	Cam	Tîm Arweiniol	Dyddiad Targed
Ffurflenni a Deunydd Esboniadol Cysylltiedig	Datblygu	Archwilio pa ffurflenni a deunyddiau sydd o fewn cwmpas yn unol â'r system sgorio, a'r prosesau posibl ar gyfer darparu'r rhain yn Gymraeg.	CST/ Perchnogion Ffurflenni/ Tîm Datganoli	2027
	Hyrwyddo	Codi ymwybyddiaeth o ofynion a phrosesau cyfieithu ffurflenni ymhlith cydweithwyr perthnasol.	Tîm Datganoli	Parhaus
		Archwilio dulliau posibl o gyfeirio a hyrwyddo ffurflenni Cymraeg, lle bo'n briodol.	Tîm Datganoli / Cyfathrebu / Timau Digidol	Parhaus
Digidol a Gwefan	Digidol	Cyflwyno mecanwaith cadarn i sicrhau bod gofynion y Gymraeg yn cael eu hystyried yn gynnar ym mhob cyfleuster digidol newydd.	Timau Digidol	2026
		Parhau i godi ymwybyddiaeth o brosesau/gofynion y Gymraeg ymhlith cydweithwyr perthnasol.	Tîm Datganoli	Parhaus
	Y wefan	Ymgorffori ystyriaethau iaith Gymraeg yn yr adolygiad hirdymor arfaethedig o ddarpariaeth gwefan HSE.	Tîm y Wefan / Tîm Datganoli	Parhaus
		Cyflwyno mecanwaith cyfeirio clir a chyson ar gyfer cynnwys Cymraeg ar dudalennau gwe perthnasol.	Tîm y Wefan	Parhaus

Adran	Maes	Cam	Tîm Arweiniol	Dyddiad Targed
Digidol a Gwefan	Y wefan	Cryfhau prosesau a chanllawiau presennol i gefnogi pob cydweithiwr i nodi a diwallu anghenion iaith Gymraeg sy'n ymwneud â'r wefan.	Tîm Datganoli / Tîm y Wefan	2025
		Cyflwyno mecanwaith cadarn i sicrhau bod gofynion y Gymraeg yn cael eu hystyried yn gynnar yn y broses o gynnwys gwefannau allanol.	Tîm y Wefan	2025
	Y Cyfryngau Cymdeithasol	Defnyddio'r system sgorio Gymraeg i ddatblygu strwythur mewnol cytunedig ar gyfer cynhyrchu cynnwys cyfryngau cymdeithasol dwyieithog HSE.	Swyddfa'r Wasg / Cyfathrebu / Tîm Datganoli	2026
		Cynyddu ein cynnwys cyfryngau cymdeithasol Cymraeg yn unol â strategaeth cyfryngau cymdeithasol ehangach.	Swyddfa'r Wasg	2027
Recriwtio a Staffio	Recriwtio	Monitro prosesau recriwtio HSE o ran y Gymraeg yn unol â chanllawiau a osodir gan Gomisiynydd y Gymraeg ac anghenion busnes.	Recriwtio AD / Tîm Datganoli	Parhaus
		Cynyddu cymorth a chanllawiau i ddeiliaid swyddi gwag sy'n recriwtio i rolau y nodir bod y Gymraeg yn ddymunol/hanfodol iddynt.	Recriwtio AD	2025
		Ymgorffori gofynion ac ymwybyddiaeth o'r Gymraeg mewn hyfforddiant sefydlu corfforaethol wyneb yn wyneb a digidol.	AD Dysgu a Datblygu	2024

Adran	Maes	Cam	Tîm Arweiniol	Dyddiad Targed
Recriwtio a Staffio	Staffio	Annog a chefnogi staff presennol sydd â sgiliau Cymraeg, lle bo'n briodol ac yn gyfforddus iddynt wneud hynny, i a) defnyddio'r Gymraeg wrth gyflawni eu dyletswyddau a b) hysbysebu eu sgiliau.	Tîm Datganoli	Parhaus
		Monitro gallu Cymraeg mewnol, er enghraifft trwy archwiliadau sgiliau rheolaidd a chasglu sgiliau iaith dechreuwyr newydd.	Recriwtio AD / Tîm Datganoli	Parhaus
		Archwilio opsiynau hyfforddi posibl i gefnogi staff i wella eu sgiliau Cymraeg.	Tîm Datganoli	2025
Ymgysylltu â'r Cyhoedd	Digwyddiadau Cyhoeddus	Archwilio mecanweithiau posibl ar gyfer darparu opsiynau iaith Gymraeg mewn cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus a gynhelir gan HSE yng Nghymru.	Cyfathrebu / Tîm Datganoli	Parhaus
Cyhoeddus-rwydd a Hunaniaeth	Cyhoeddusrwydd	Dylunio, gweithredu a hyrwyddo mecanweithiau i nodi a bodloni gofynion cyhoeddusrwydd iaith Gymraeg.	Cyfathrebu / Arweinwyr Polisi / Tîm Datganoli	Parhaus
	Hunaniaeth	Datblygu a hyrwyddo adnoddau i gefnogi ein hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog e.e. templedi sleidiau corfforaethol dwyieithog.	Cyfathrebu	2026

Adran	Maes	Cam	Tîm Arweiniol	Dyddiad Targed
Cyhoeddus-rwydd a Hunaniaeth	Hunaniaeth	Adolygu arwyddion mewn mannau cyhoeddus sy'n eiddo i HSE a nodi camau gweithredu pellach.	Uwch Reolwyr Gweinyddol / Tîm Datganoli	2025
Trefniadau Mewnol	Cydgysylltu	Datblygu a chynnal prosesau cydgysylltu mewnol i gefnogi cyflwyno'r Cynllun.	Tîm Datganoli	Parhaus
	Adnoddau	Ehangu'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi cydweithwyr mewnol i gyflawni eu cyfrifoldebau o dan y Cynllun.	Tîm Datganoli	Parhaus
Monitro, Adborth a Chwynion	Monitro	Monitro cynnydd HSE o bryd i'w gilydd o ran cyflawni'r ymrwymiadau a wneir yn y cynllun yn ôl y mesurau mesuradwy sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu hwn ac yn yr adroddiadau blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg.	Tîm Datganoli	Parhaus
		Dylunio a gweithredu mecanwaith goruchwylio ar draws y sefydliad i fonitro gweithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg.	Tîm Datganoli	Parhaus
		Sicrhau bod gofynion yr iaith Gymraeg yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau busnes a chofrestrau risg perthnasol.	Timau Perthnasol	Parhaus
	Adborth	Sefydlu a hyrwyddo mecanweithiau adborth a chwynion clir (mewnol ac allanol) yn ymwneud â'n darpariaeth gwasanaeth Cymraeg.	Tîm Datganoli	2024

Adran	Maes	Cam	Tîm Arweiniol	Dyddiad Targed
Adolygu/ Diwygio'r Cynllun	Adolygu	Datblygu a gweithredu proses monitro a gwerthuso ar gyfer y Cynllun Iaith Gymraeg a'r Cynllun Gweithredu.	Tîm Datganoli	Parhaus
		Cynnal adolygiad llawn o'n Cynllun Iaith Gymraeg 2024 a'n Cynllun Gweithredu erbyn 2028 fan bellaf.	Tîm Datganoli	2028
	Diwygiadau	Cyfathrebu'n rheolaidd â swyddfa'r Comisiynydd a cheisio cymeradwyaeth ar gyfer unrhyw ddiwygiadau i'r Cynllun.	Tîm Datganoli	Parhaus
Arall	-	Datblygu, gweithredu a hyrwyddo system sgorio Gymraeg i'w defnyddio ar draws HSE i hwyluso asesu'r gofynion cyfieithu.	Tîm Datganoli	2024
	-	Penodi Hyrwyddwr Iaith Gymraeg o blith ein Harweinwyr Uwch i gefnogi a hyrwyddo Cynllun Iaith Gymraeg HSE.	Tîm Datganoli	2024
	-	Ymgorffori cyfrifoldebau iaith Gymraeg penodol yn rôl a rhwydwaith presennol yr Arweinydd Datganoli Is-adrannol.	Tîm Datganoli	2024
	-	Datblygu canllawiau, hyfforddiant ac adnoddau i gefnogi'r holl staff i gyflawni eu cyfrifoldebau o dan y Cynllun.	Tîm Datganoli	Parhaus
	-	Codi ymwybyddiaeth o'r Cynllun a'r cyfrifoldebau cysylltiedig ymhlith yr holl staff trwy ymgyrchoedd hyrwyddo.	Tîm Datganoli / CST/ Digidol/Gwefan	Parhaus

Adran	Maes	Cam	Tîm Arweiniol	Dyddiad Targed
Arall	-	Sicrhau bod y Cynllun, y Cynllun Gweithredu a'r adnoddau cysylltiedig ar gael yn hawdd i'r holl staff.	Tîm Datganoli	Parhaus

Gwybodaeth bellach

Am wybodaeth ynglŷn â iechyd a diogelwch, neu i adrodd anghysonderau neu wallau yn y canllaw hwn, ewch i wefan yr HSE.

© Hawlfraint y Goron. Os ydych yn dymuno ailddefnyddio'r wybodaeth hon, ewch i wefan yr HSE am fanylion.

Cyhoeddwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch 09/24.